# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)25-08

**Dyddiad:**Dydd Mawrth 7 Hydref 2008
**Amser:**8.30 a.m.
**Lleoliad:**Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, Arweinydd y Ty
Chris Franks, Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**
Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Ty
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau
Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Jocelyn Davies. Croesawodd y Llywydd Chris Franks a oedd yn ei chynrychioli yn unol â Rheol Sefydlog 10.42.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)24-08 (Cofnodion drafft) – Dydd Mawrth 30 Medi 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)25-08(p1)**

3.1 Cytunodd y pwyllgor na ddylai'r cyfnod pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.2 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes ar gyfer 7 ac 8 Hydref 2008.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)25-08(p2)**

3.3 Nododd y pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf.

**Amserlen Busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y 3 wythnos nesaf - BC(3)25-08(p3)**

3.4 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitemau busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth a ganlyn:

·Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2009/10 (30 munud) ar 22 Hyd; a

·Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar yr Ymateb i Ymgynghoriad Network Rail ar y Strategaeth Defnydd o Lwybrau ar gyfer Cymru (60 munud) ar 5 Tach.

3.5 Cytunodd y pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.6 Cytunodd y pwyllgor ar drefn Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth.

**4. Trefn Busnes**

**Papur ar Bwyllgorau Deddfwriaeth Parhaol - BC(3)25-08(p5)**

4.1 Yn ei gyfarfod ar 23 Medi ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur ar Bwyllgorau Deddfwriaeth Parhaol a thrafod y syniad o gadeiryddion parhaol, nad ydynt yn pleidleisio ar gyfer pwyllgorau deddfwriaeth a phwyllgorau ar Gyfnod 2 Mesurau yn benodol. Parhaodd y pwyllgor i drafod y materion yn dilyn ymgynghori pellach gyda grwpiau gwleidyddol. Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am bapur pellach yn ymchwilio i'r materion canlynol: pwyllgorau parhaol; cadeiryddion parhaol; dirprwyon ar gyfer pwyllgorau parhaol; a'r posibilrwydd o gael

pwyllgor(au) i ymdrin yn benodol â deddfwriaeth arfaethedig Aelodau. Cytunodd y pwyllgor i drafod y materion hyn eto yn ei gyfarfod ar 21ain Hydref.

**5. Deddfwriaeth**

**Cais i ymestyn y dyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno adroddiad gan y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Dysgu a Sgiliau (Cymru) - BC(3)25-08(p4)**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y dyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno adroddiad gan y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig Dysgu a Sgiliau i 2 Rhagfyr. Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai'r dyddiad hwn yn parhau i alluogi i'r ddadl Cyfnod 1 ddigwydd cyn y Nadolig ac nad oedd yn debygol y byddai'n effeithio ar gwblhau Cyfnod 2. Dywedodd Arweinydd y Ty fod ei gytundeb ef yn amodol ar y ffaith nad oedd yr ymestyn yn effeithio ar amserlen Cyfnod 2. Dywedodd Adrian Crompton ei bod yn bosibl y byddai'n angenrheidiol i'r pwyllgor gynnal cyfarfodydd ychwanegol yn ystod Cyfnod 2 er mwyn cwblhau'r gwaith erbyn y dyddiad terfyn.

**Papur diweddaru am hynt deddfwriaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol – Medi 2008 - BC(3)25-08(p5)**

5.2 Nododd y Pwyllgor Busnes y papur diweddaru am hynt Deddfwriaeth yn y Cynulliad.

**6. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Llythyr oddi wrth gyn Aelodau'r Pwyllgor Darlledu - BC(3)25-08(p6)**

6.1 Trafododd y Pwyllgor Busnes lythyr pellach oddi wrth gyn Aelodau'r Pwyllgor Darlledu ynglyn â'r argymhelliad i sefydlu Pwyllgor ar Gyfathrebu. Cytunodd y pwyllgor i wahodd Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant a chyn Gadeirydd y Pwyllgor Darlledu i'w gyfarfod nesaf i drafod materion ynghylch y cais hwn.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**